Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 03.03.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# RECRIWTIO: Nifer cyfyngedig o lefydd yn ffeiriau swyddi Gwaith Gwynedd

Yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae ffeiriau swyddi hynod boblogaidd Gwaith Gwynedd yn yr wythnosau nesaf yn Nolgellau, Bangor a Phorthmadog wedi'u tanysgrifio'n llawn. Mae ychydig o lefydd ar ôl i'w llenwi yn ffair swyddi Tywyn, i'w gynnal yn Byw'n Iach Bro Dysynni ar 26 Ebrill 2023 ac yn ffair swyddi Abermaw i'w gynnal yn Byw'n Iach Pafiliwn ar 4 Mai 2023.

Os ydych yn recriwtio ac yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch ar: 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Cofiwch hysbysebu eich swyddi gwag ar hysbysfwrdd Gwaith Gwynedd:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

# CYLLID: Mynd Amdani – benthyciadau di-log

Yn dilyn llwyddiant cynllun Be Nesa Llŷn – sy'n darparu benthyciadau di-log i helpu bobl ifanc yn Llŷn i ddatblygu busnesau newydd – mae Arloesi Gwynedd Wledig wedi sefydlu cronfa Mynd Amdani sy'n cynnig benthyciad di-log o hyd at £5000 i bobl ifanc lleol (25 neu iau) sy'n awyddus i gychwyn neu ddatblygu busnes yn Nyffryn Nantlle. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.arloesigwyneddwledig.cymru/prosiectau/mynd-amdani/

Mae Be Nesa Llŷn dal yn weithredol. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.arloesigwyneddwledig.cymru/prosiectau/be-nesa-llyn/

# NEWYDDION: Ynys Enlli – noddfa awyr dywyll gyntaf Ewrop

Mae Ynys Enlli wedi derbyn statws Noddfa Awyr Dywyll Ryngwladol (IDSS) gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA), y safle cyntaf yn Ewrop i dderbyn statws o'r fath, ac un o 16 safle arall yn unig ledled y byd. Disgwylir i'r statws yma gynyddu y nifer o ymwelwyr i'r ynys a'r ardal cyfagos. I ddarllen mwy, ewch i:

https://www.bardsey.org/noddfaawyrdywyll

# CYFLOGAETH: Busnes Cymru – Yn Gefn i Chi

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth recriwtio a chymorth ariannol penodol i helpu cyflogwyr i greu cyfleoedd newydd i bobl ifanc ymuno â'u tîm drwy brofiad gwaith, lleoliadau gwaith neu gyflogaeth gan gynnwys y Gwarant i Bobl Ifanc, Twf Swyddi Cymru+ a React+. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/yn-gefn-i-chi

# AMAETHYDDIAETH: Cefnogaeth Cyswllt Ffermio gwerth dros £22 miliwn ar gyfer ffermwyr Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd rhaglen Cyswllt Ffermio newydd gwerth £22.9 miliwn ar gael i ffermwyr Cymru dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn eu cefnogi wrth iddynt baratoi at symud i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. I ddarllen mwy am hyn, ewch i:

https://www.llyw.cymru/cefnogaeth-cyswllt-ffermio-gwerth-dros-22-miliwn-ar-gyfer-ffermwyr-cymru

# DIGIDOL: Paratoi ar gyfer diffodd PSTN yn 2025

O 2025 bydd pob llinell ffôn copr yn dechrau cael ei ddiffodd gan effeithio ar bopeth sy'n gysylltiedig â llinellau ffôn fel larymau, peiriannau EPOS, systemau mynediad drysau, teledu cylch cyfyng a ffacsiau, a all beidio a gweithio. I gael gwybod sut allwch chi gynllunio ymlaen llaw, ewch i:

http://bit.ly/3Z9CWB7

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru